

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:	Lowri Wynne Williams, Comisiynydd y Gymraeg
Sefydliad (os yw'n berthnasol):	Comisiynydd y Gymraeg
Cyfeiriad E-bost:	lowri.williams@cyg-wlc.cymru
Eich cyfeiriad:	

Cwestiwn 1: Mae'r Strategaeth yn nodi'r meysydd y byddwn yn eu blaenoriaethu wrth gynllunio ar gyfer ein cymdeithas sy'n heneiddio a pham. A ydym wedi blaenoriaethu'r meysydd cywir?

Sylwadau:

Nid ydym yn arbenigwyr ar gynllunio ar gyfer ein cymdeithas sy'n heneiddio. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth yn cynnwys blaenoriaethau a chymau gweithredu y credwn sy'n synhwyrol yn wyneb y dystiolaeth a gyflwynwch ac yn faterion y credwn fyddai'n cyfrannu at atgyfnerthu hawliau a llesiant siaradwyr Cymraeg yn ein cymdeithas. Rydych yn cyfeirio yn benodol at bwysigrwydd cael mynediad at wasanaethau Cymraeg sy'n ymwneud â llesiant. Rydym wrth gwrs yn cefnogi'r pwyslais hwn. Credwn yn ogystal bod llawer iawn o waith i'w wneud i wireddu hynny drwy weithrediad llawn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg yn ogystal â gweithredu safonau'r Gymraeg a blaenoriaethau *Mwy na geiriau*¹ o safbwynt darparu gwasanaethau iechyd a gofal i siaradwyr Cymraeg.

Fodd bynnag, mae'n hollbwysig fod darparu gwasanaethau Cymraeg, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ehangu sgiliau yn y Gymraeg yn rhan ganolog o'r Strategaeth hon ac yn treiddio i bob agwedd ar ei gweithredu. Credwn y byddai'n fuddiol tanlinellu hynny yn y Strategaeth. Gyda hyn mewn golwg yn ein hateb i gwestiynau 15 ac 16 rydym yn cynnig rhai materion ichi eu hystyried a fyddai gobeithio yn atgyfnerthu eich ymrwymiad i'r dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.

Cwestiwn 2: A oes unrhyw faterion nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y Strategaeth yr ydych yn credu y dylid eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio?

Sylwadau:

Fel y nodwn uchod credwn bod angen rhoi ystyriaeth bellach i gyfleoedd siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn llawn ym mhob agwedd ar eu bywydau ac y dylid

¹ [Y Gymraeg mewn gofal iechyd \(Mwy na geiriau\): cynllun gweithredu 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU](#)

sicrhau bod hynny yn rhan annatod o bob un o flaenoriaethau'r Strategaeth hon.

Cwestiwn 3: A ydym wedi nodi'r polisïau a'r mecanweithiau allweddol a all sicrhau newid gwirioneddol ym mywydau pobl hŷn heddiw ac ym mywydau cenedlaethau'r dyfodol?

Sylwadau:

Gweler ein hateb i gwestiwn 15.

Cwestiwn 4: A yw'r cynnwys yn ymateb digon uchelgeisiol i gymdeithas sy'n heneiddio, sy'n fater polisi o bwys?

Sylwadau:

Gweler ein hymatebion i gwestiynau 1-2, 15 ac 16.

Cwestiwn 5: A fydd y Strategaeth yn helpu i wneud y gorau o botensial y nifer cynyddol o bobl hŷn yn ein cymunedau?

Sylwadau:

Gweler ein hymatebion i gwestiynau 1-2, 15 ac 16.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno â'n huchelgais i weithio tuag at Gymru o blaid pobl hŷn? Os felly, nodwch yr hyn yr ydych chi, fel unigolyn neu sefydliad, yn ei wneud i'n helpu i greu Cymru o blaid pobl hŷn.

Sylwadau:

Ydym. Rydym yn cytuno â'ch uchelgais.

Cwestiwn 7: Sut y mae Covid 19 wedi newid eich gallu i wneud pethau sy'n bwysig i chi, neu'r ffordd yr ydych yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn?

Sylwadau:

Dim ymateb.

Cwestiwn 8: Sut y gallwn gynnwys pobl hŷn yn y gwaith o ailadeiladu ein cymunedau ar ôl y pandemig?

Sylwadau:

Dim ymateb.

Adolygiad Llywodraeth Cymru o ymgysylltu

Cwestiynau i bobl hŷn

Cwestiwn 9: A ydych yn aelod o grŵp neu fforwm 50+? Os ydych, pa mor llwyddiannus ydych chi'n meddwl yw'r fforwm o ran dylanwadu ar benderfyniadau polisi lleol a chenedlaethol?

Sylwadau:

Nac ydym.

Cwestiwn 10: A yw'r fforwm 50+ o fudd i'ch ardal leol mewn ffyrdd eraill? (E.e. Drwy leihau ynysigrwydd cymdeithasol neu ddatblygu gwynwch cymunedau?)

Sylwadau:

Ddim yn berthnasol.

Cwestiwn 11: Sut ydych chi'n meddwl y gall llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol ymgysylltu'n well â phobl hŷn?

Sylwadau:

Ddim yn berthnasol.

Cwestiynau i awdurdodau lleol

Cwestiwn 12: A oes Fforwm 50+ sy'n dal i weithredu yn eich ardal chi? Os oes, pa mor llwyddiannus ydyw o ran cynnwys pobl hŷn wrth wneud penderfyniadau lleol?

Sylwadau:

Ddim yn berthnasol.

Cwestiwn 13: A yw eich fforwm 50+ o fudd i'ch ardal leol mewn ffyrdd eraill? (E.e. Drwy leihau ynysigrwydd cymdeithasol neu ddatblygu gwytnwch cymunedau?)

Sylwadau:

Ddim yn berthnasol.

Cwestiwn 14: Os nad oes fforwm 50+ sy'n weithredol yn eich ardal leol, sut ydych chi'n ymgysylltu â phobl hŷn?

Sylwadau:

Ddim yn berthnasol.

Cwestiwn 15: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Cynllun Cenedlaethol i Ofalwyr yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau:

Nid ydym yn arbenigwyr ar gynllunio ar gyfer ein cymdeithas sy'n heneiddio. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth yn cynnwys blaenoriaethau a chymau gweithredu y credwn sy'n synhwyrol yn wyneb y dystiolaeth a gyflwynwch ac yn faterion y credwn fyddai'n cyfrannu at atgyfnerthu hawliau a llesiant siaradwyr Cymraeg yn ein cymdeithas sy'n heneiddio.

Nodir ar ddechrau'r Strategaeth bod 'dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ar draws ystod o feysydd polisi' wedi'i mabwysiadu wrth ei llunio. O safbwynt Cymru wrth gwrs hoffem bwysleisio bod gan siaradwyr Cymraeg hawliau i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg ac na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg, Yn benodol yn hyn o beth mae gofyn i sefydliadau cyhoeddus ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n gwbl greiddiol felly fod egwyddor y safonau llunio polisi a chyfleoedd siaradwyr

Cymraeg hŷn yn ogystal â'u llesiant yn greiddiol i weithrediad y Strategaeth hon a'r rhaglenni a'r prosiectau sy'n gysylltiedig â hi. Mae cyfeiriadau arfaethedig eich gweledigaeth (tudalen 6) yn cynnwys y ddau gyfeiriad isod sy'n greiddiol o safbwynt siaradwyr Cymraeg sy'n heneiddio ond yn wir yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg o bob oed:

- Cymru lle y gall unigolion gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain **a theimlo'n hyderus y bydd cymorth ar gael, a hynny'n gyfleus, os bydd ei angen.**²

Rydym yn clywed yn rhy aml am siaradwyr Cymraeg yn peidio â gofyn am wasanaethau yn y Gymraeg oherwydd nad ydynt yn hyderus y byddant yn derbyn y gwasanaethau hynny yn y Gymraeg, neu nad ydynt eisiau gael eu gweld yn 'creu trafferth' drwy ofyn amdanynt. Mae'n llawer gwell gan nifer o bobl dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg ac yn wir mae sicrhau hynny yn fodd o sicrhau eu llesiant. Mae sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg o dan unrhyw anfantais oherwydd eu bod yn dymuno ac yn dewis derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg yn gwbl hanfodol. Dylid symud tuag at ystyried bod darparu gwasanaethau iechyd a llesiant yn y Gymraeg yn fesur o ansawdd y gwasanaethau hynny gan atgyfnerthu'r cyfeiriad isod yn y Strategaeth:

- Cymru lle nad yw rhagfarn ar sail oedran yn cyfyngu ar botensial nac yn **effeithio ar ansawdd y gwasanaethau**³ y mae pobl hŷn yn eu cael.

Rydym yn awyddus i wybod i ba raddau y mae pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg mewn cymdeithas sy'n heneiddio wrth wraidd yr holl bolisïau a mecanweithiau y cyfeirir atynt yn y Strategaeth. Ein dealltwriaeth o ddarllen y Strategaeth yw y gweithredir y Strategaeth mewn partneriaeth â sefydliadau o sawl sector gan gynnwys y trydydd sector, y sector preifat a'r sector tai. Buasai'n dda gwybod sut y mae'r Llywodraeth yn sicrhau bod y cyrff hyn yn prif ffrydio anghenion siaradwyr Cymraeg i'r prosiectau a ariennir a sut y mae hynny yn cael ei fonitro.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydweithio â mudiadau'r trydydd sector a'r sector preifat i ddatblygu Cynlluniau Datblygu'r Gymraeg fel cam tuag at dderbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg⁴ sy'n fodd i'r mudiadau hyn ddangos ei hymrwymiad i'r Gymraeg ac i sicrhau ansawdd eu gwasanaethau Cymraeg. Mae'n gynllun mae'r Comisiynydd wedi ei ddatblygu i gynorthwyo busnesau ac elusennau i farchnata'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Credwn y byddai'n fuddiol iawn i chi sicrhau bod gan y cyrff trydydd sector a sector preifat sy'n rhan o weithredu amcanion y Strategaeth hon Gynllun Datblygu'r Gymraeg yn ogystal â chyflawni'r gofynion y prosiectau a ariennir o safbwynt darpariaeth ynghylch y Gymraeg yn unol â fframwaith rhoi grantiau'r Llywodraeth.

Cwestiwn 16: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn: cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y

² Ein pwyslais ni

³ Ein pwyslais ni

⁴ Gweler yr adran Cynnig Cymraeg ar y dudalen hon [Sicrhau ansawdd - WCVA](#)

Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau:

Nodwn isod rai materion ichi eu hystyried o safbwynt y Gymraeg wrth ystyried nodau cenedlaethol gweithredu'r Strategaeth hon:

Nod cenedlaethol: Gwella llesiant

Yn yr adran hon pwysleisir pwysigrwydd y system iechyd a gofal er mwyn cwrdd ag anghenion cymdeithas sy'n heneiddio. Nodir bod y Llywodraeth yn 'gweithio i greu system iechyd a gofal cymdeithasol gwbl integredig sy'n cefnogi pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain gan deimlo'n hyderus y bydd cefnogaeth ar gael, a hynny'n gyfleus, os oes angen.' Ymhlith nifer o faterion eraill nodir y bwriedir datblygu:

- dull system gyfan lle darperir cymorth, gofal neu driniaeth ddi-dor **mor agos i'r cartref â phosibl**;
- gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer **unigolion, yn seiliedig ar eu hanghenion unigryw** a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau o ran ansawdd a diogelwch;
- gwasanaethau **lleol ar gael mewn lleoliadau cymunedol**

(ein pwyslais ni)

Rydym yn cefnogi'r egwyddorion uchod. Fodd bynnag, mae'r pwyslais yr ydym wedi ei roi ar rai cymalau yn tanlinellu'r angen i gynllunio gwasanaethau gofal a iechyd ar gyfer siaradwyr Cymraeg fel y bo pobl yn hyderus y byddant yn derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg pan fônt yn dymuno eu derbyn. Nid dewis yw derbyn gwasanaethau iechyd a gofal i lawer o bobl hŷn ond yn hytrach mae'n fater o angen ac o raid. Mae Llywodraeth Cymru yn tanlinellu hyn yn fframwaith *Mwy na geiriau*, ac fe nodir hynny yn y Strategaeth hon yn ogystal (tudalen 15) 'rydym am greu amgylchedd lle y bydd pawb eisiau defnyddio'r Gymraeg ac yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae hyn yn bwysig i bob gwasanaeth, ond hyd yn oed yn fwy felly ym maes iechyd a gofal gan y gall ansawdd y gofal gael ei gyfaddawdu yn sgil methiant i gyfathrebu â phobl yn eu hiaith gyntaf. I lawer o bobl hŷn nid mater o ddewis yw defnyddio'r Gymraeg ond mater o angen, yn enwedig y rhai sy'n dioddef o ddementia neu strôc a allai gollu eu hail iaith.'

Fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw hyn yn digwydd bob tro ar hyn o bryd. Ym mis Medi 2020 cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia.⁵ Canfu'r adroddiad enghreifftiau o arfer da mewn sawl man, fodd bynnag mae'n nodi 'Gwelsom bobl sy'n siarad Cymraeg mewn cartrefi lle nad oedd unrhyw staff a oedd yn siarad Cymraeg nac unrhyw weithgareddau nac adnoddau Cymraeg. Mae llai na hanner y cartrefi gofal yn darparu gwasanaeth dwyieithog a byddai'n ymddangos nad yw llawer o gartrefi gofal yn nodi pobl sy'n siarad Cymraeg. Gallai hyn fod yn niweidiol i bobl y mae'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg ac amharchu eu hawliau unigol.' (tud.6). Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau adroddiad ar y cyd rhwng Comisiynydd y Gymraeg ac Alzheimer's Society Cymru ar wasanaethau dementia siaradwyr Cymraeg a gyhoeddwyd yn 2018. Nid yw'n dderbyniol nad yw siaradwyr Cymraeg mewn

⁵ [Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia | Arolygiaeth Gofal Cymru](#)

cymdeithas sy'n heneiddio yn derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg er gwaetha'r gydnabyddiaeth genedlaethol bod hyn yn fater o angen.

Gan gydnabod uchod fod y Strategaeth yn cyfeirio at yr angen i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg ni cheir manylder o gwbl ynghylch pa fentrau sydd eisoes ar waith i sicrhau hynny, ac ni cheir manylion ychwaith ynghylch pa fentrau y bwriedir eu rhoi ar waith yn sgil y Strategaeth hon i sicrhau hynny. Er enghraifft:

- Ein dymuniad wrth gwrs fyddai bod darparu gwasanaethau yn y Gymraeg wedi'i brif-ffrydio i bob un o'r prosiectau y cyfeirir atynt yn y Strategaeth ar dudalennau 14-18 sydd eisoes ar waith neu y bwriedir eu gweithredu. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft yr holl brosiectau a ariennir drwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2020 i 2023⁶. Er hynny, credwn y byddai'n fuddiol iawn yn ogystal ystyried a oes angen datblygu prosiectau sydd â'r bwriad penodol o wella gwasanaethau yn y Gymraeg mewn rhai meysydd o flaenoriaeth. Gweler er enghraifft argymhellion ein hadroddiad ar y cyd ag Alzheimer's Society Cymru⁷.
- Nid yw pwysigrwydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o safbwynt darparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg yn cael ei amlygu yn y Strategaeth. Rydym yn awyddus iawn i wybod rhagor am sut y mae'r Ddeddf hon yn diwallu gofynion siaradwyr Cymraeg. Mawr obeithiwn y bydd y gwerthusiad sydd ar y gweill ac y cyfeirir ato ar dudalen 17 yn mynd i'r afael yn ddigonol â hyn a'r trefniadau y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd ac eraill yn eu rhoi mewn lle i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau Cymraeg. Edrychwn ymlaen at weld Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar y canfyddiadau hynny. Fel y nodwn uchod mae nifer o enghreifftiau o'n hadroddiad ar y cyd ag Alzheimer's Society Cymru yn awgrymu nad yw'n cael ei weithredu'n ddigonol bob tro o safbwynt gwasanaethau dementia i siaradwyr Cymraeg. Yn gysylltiedig â hyn wrth gwrs mawr obeithiwn y bydd y Fframwaith Perfformiad a Gwella i sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn casglu'r un data i ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys casglu data am ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Nod Cenedlaethol: Gwella gwasanaethau lleol ac amgylcheddau Tai

Yn yr adran hon pwysleisir pwysigrwydd cynllunio tai ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio gan gyfeirio at raglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig tair blynedd gwerth £105 miliwn i gefnogi buddsoddi mewn llety sydd wedi'i integreiddio â gwasanaethau iechyd a gofal. Buasem yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal ar gael yn y Gymraeg yn rhan ganolog o gynllunio'r lleoliadau. Flaenaf yn hyn o beth yw sicrhau bod staff ar gael sy'n siarad Cymraeg i ddarparu'r gwasanaethau hyn. O ran blaenoriaethau i'r dyfodol nodir y bwriad i 'weithio'n agos â'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a thai yn ogystal â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf sydd â'r gallu i ehangu yn unol â'r anghenion i

⁶ [prosiectau-a-ariennir-drwyr-grant-ir-trydydd-sector-ar-gyfer-gwasanaethau-cymdeithasol-cynaliadwy-2020-i-2023.pdf \(llyw.cymru\)](#)

⁷ [Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg ac Alzheimers Society Cymru ynghylch Gofal Dementia Siaradwyr Cym.pdf \(senedd.cymru\)](#)

sicrhau bod tai yn chwarae rhan arwyddocaol yng ngwaith y Byrddau.' Hoffem danlinellu felly, yr angen i ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg i bobl hŷn fod yn elfen hanfodol o'r rhaglen hon ac y dylai pob partner sy'n cydweithio yn rhan o'r mentrau hyn, boed hwy o'r sector cyhoeddus, y sector tai neu sectorau eraill yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd darpariaeth yn y Gymraeg i boblogaeth sy'n heneiddio.

Trafnidiaeth

Rydym yn cytuno ei bod yn hanfodol yn creu system drafnidiaeth o blaid pobl hŷn sy'n hygyrch i bob person hŷn. Mae system drafnidiaeth o'r fath yn galluogi nifer o siaradwyr Cymraeg hŷn mewn cymunedau gwledig lle ceir dwyster uchel o siaradwyr Cymraeg i barhau i fyw yno a manteisio ar wasanaethau a chyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol. Ymatebodd y Comisiynydd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau cyfleoedd teg i siaradwyr Cymraeg wrth dderbyn gwasanaethau a datblygu strategaeth drafnidiaeth sy'n hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a hybu gweithgarwch economaidd mewn ardaloedd Cymraeg. .Nodir y bwriad i 'datblygu plattform technoleg cenedlaethol newydd a fydd, yn y dyfodol, yn caniatáu inni weithredu datrysiad prynu tocynnau drwy gyfrifon ar gyfer bysiau, trenau, llogi beiciau, parcio a theithio a mynediad at fathau eraill o drafnidiaeth. Y system hon fydd yn gosod y sylfaen ar gyfer sut mae pobl ledled Cymru yn talu am fysiau ledled Cymru ac yn cael mynediad atynt yn y dyfodol.' Hoffem bwysleisio'r angen i'r plattform technoleg hwn fod ar gael yn hygyrch ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Rhaid cofio ar yr un pryd nad yw pob person hŷn o bosibl yn dymuno neu yn gallu am amryfal resymau, ddefnyddio plattfformau technolegol.

Nod cenedlaethol: Meithrin a chynnal galluogrwydd pobl

Cyfranogiad cymunedol

Trafodir yn yr adran hon bwysigrwydd gwirfoddoli ac fe nodir y cyfraniad sylweddol y mae pobl hŷn yn ei wneud i gymdeithas drwy wirfoddoli. Nodir bod 'llawer o grwpiau cymunedol bron yn gwbl ddibynnol ar gyfraniadau pobl hŷn ac wedi brwydro i oroesi yn ystod y pandemig oherwydd cyfyngiadau iechyd cyhoeddus.' Yn hyn o beth buasem yn eich annog i siarad â chydweithwyr yn uned y Gymraeg o fewn y Llywodraeth a gomisiynodd adroddiad gan Is-Grŵp i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg yn edrych ar effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg⁸. Mae'r adroddiad yn cynnwys: '*Argymhelliad 6: Cydbwysedd rhwng y cenedlaethau: Noder proffil oedran hŷn llawer o'r cymdeithasau Cymraeg presennol. Dylid bwrw ati i feithrin y genhedlaeth nesaf o arweinwyr cymunedol er mwyn sicrhau olyniaeth arweinyddiaeth mewn cymdeithasau a grwpiau cymunedol. Gellid cynnig cyfleoedd gwirfoddoli mewn cymdeithasau cyfrwng Cymraeg, ond hefyd brentisiaethau, profiadau gwaith a chyfleoedd i feithrin sgiliau. Gallai hwyluso a chefnogi'r trefniadau fod yn rhan o waith Mentrau Iaith a mudiadau cymdeithasol Cymraeg, ond mae angen hefyd eu hintegreiddio mewn cynlluniau ar draws Llywodraeth Cymru sydd yn datblygu arweinyddiaeth gymunedol ar hyd a lled Cymru.'* Buasem yn eich annog i drafod yn fewnol pa gyfleoedd sy'n deillio o flaenoriaethau'r Strategaeth hon a sut y bydd y Llywodraeth yn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad uchod gan gynnwys yn benodol

⁸ [Datganiad Ysgrifenedig: Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: argymhellion Is-grŵp Cynyddu Defnydd y Gymraeg \(16 Rhagfyr 2020\) | LLYW.CYMRU](#)

argymhelliad 6 sy'n ymddangos fel cyfle euraid i bontio'r cenedlaethau, sef un o flaenoriaethau'r adran hon.

Nodir yn yr adran hon bod gwaith yn digwydd i wella mynediad at wybodaeth a chyngor ac fe gyfeirir at DEWIS Cymru. Buasem yn eich annog i edrych am gyfleoedd i ehangu'r cyfeiriadur hwn i ddangos i'r cyhoedd lle mae modd iddynt gael mynediad at wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

O ran blaenoriaethau'r dyfodol nodir y bydd y Llywodraeth yn ariannu Gofal Mewn Galar Cruse i drawsnewid gwasanaethau profedigaeth cenedlaethol a lleol, drwy ddatblygu 'Hyb Profedigaeth.' Fel Comisiynydd rydym wedi clywed am brofiadau unigolion sy'n methu â derbyn cefnogaeth galar trwy gyfrwng y Gymraeg felly buasem yn annog y Llywodraeth i sicrhau bod yr hyb galar hwn yn cynnwys mynediad at wasanaethau profedigaeth cenedlaethol a lleol yn y Gymraeg.

Un o flaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer yr adran hon yw 'annog cysylltiad sy'n pontio'r cenedlaethau' ac fe nodir y bwriad i 'annog pob bwrdd iechyd lleol ledled Cymru i sefydlu, ymwreiddio a thyfu arferion sy'n pontio'r cenedlaethau'. Rydym yn ymwybodol o rai prosiectau sy'n dod â phlant ifanc i gysylltiad â phobl sy'n byw â dementia er enghraifft. Buasem yn eich annog i ystyried beth yw potensial defnyddio siaradwyr Cymraeg hŷn mewn cymunedau ar draws Cymru i gefnogi datblygiad iaith Gymraeg plant ifanc, boed hynny mewn ysgolion neu yn y gymuned. I nifer o blant ac oedolion sydd ddim o aelwydydd Cymraeg byddai cyfleoedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn gymorth mawr iddynt ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol. Yn hyn o beth wrth gwrs mae lle ichi drafod â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith a Merched y Wawr er enghraifft.

Ymgysylltiad dinesig

Rydym yn gefnogol wrth gwrs i'r pwyslais a roddir ar ymgysylltu dinesig â phobl hŷn. Fodd bynnag, buasem yn eich annog i sicrhau bod y mentrau sydd eisoes ar waith gennych a blaenoriaethau'r dyfodol yn cynnwys cynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg o gymunedau ar draws Cymru i fedru rhannu eu profiadau hwy. Buasem yn eich annog felly i drafod hyn â'r Mentrau Iaith a Merched y Wawr yn arbennig fel rhai sy'n gweithio'n agos â phobl o bob oed ar lawr gwlad.

Dysgu Gydol Oes a gweithwyr hŷn

Mae gennym ddiddordeb mewn deall rhagor am ymrwymiad y Gweinidog Addysg 'i archwilio sut y gall Llywodraeth Cymru gyflwyno hawl newydd i ddysgu gydol oes yng Nghymru - er mwyn rhoi mynediad a chyfle i bawb yng Nghymru ddysgu drwy gydol eu hoes.' Buasem yn annog yr hawl hwn i gynnwys yr hawl i bobl fedru dysgu a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg gan na chafodd nifer o bobl gyfle i ddysgu'r Gymraeg pan oeddent yn ieuengach. Buasai hyn yn un ffordd dda o uwchsgilio pobl sy'n rhan o'ch blaenoriaethau ar gyfer y gweithwyr hŷn. Buasai hefyd yn gam cadarnhaol tuag at wireddu Strategaeth 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg ac yn fodd o gwrdd â'r angen cynyddol am siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu.

Nod cenedlaethol: Trechu tlodi sy'n gysylltiedig ag oedran

Rydym eisoes wedi nodi pwysigrwydd rhoi'r cyfle i bobl ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Credwn hefyd bod angen sicrhau bod siaradwyr Cymraeg a phobl sy'n

dymuno dysgu'r iaith yn ymwybodol o bwysigrwydd sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y gweithlu yng Nghymru. Mae llawer o bobl na chafodd y cyfle i ddysgu'r Gymraeg pan oeddent yn ieuengach ac mae angen eu cynorthwyo i wneud hynny. Mae llawer o bobl eraill sydd â sgiliau yn y Gymraeg ond sydd heb hyder i'w defnyddio. Dylai hyn fod yn rhan o'r gwasanaeth newydd y cyfeirir ato 'fydd yn rhoi cyngor ar gyflogadwyedd a ddarperir gan Gyrfa Cymru a fydd yn sicrhau cyngor ac arweiniad gwell ac yn darparu cymorth unigol i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau o ran cael gwaith.' Credwn yn ogystal bod angen i Lywodraeth Cymru edrych ymhellach ar bwysigrwydd sgiliau yn y Gymraeg fel rhan o ddatblygu'r economi sylfaen. Yn hyn o beth buasai gennym ddiddordeb mewn gweld yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn rhan o Gronfa Her Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru sy'n datblygu economïau rhanbarthol er mwyn rhannu ffyniant yn fwy cyfartal ledled Cymru.

Cwestiwn 17: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.

Sylwadau:

Gellir cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw:

